ATODLEN 4

MEINI PRAWF AR GYFER CANFOD ISAFSYMIAU'R PWYNTIAU SAMPLU AR GYFER MESURIADAU SEFYDLOG CRYNODIADAU'R LLYGRYNNAU PERTHNASOL YN YR AER AMGYLCHYNOL

# RHAN I

## Isafswm y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog i asesu a ydys yn cydymffurfio â gwerthoedd terfyn ar gyfer diogelu iechyd pobl a throthwyon rhybuddio mewn parthau a chrynoadau os mesuriadau sefydlog yw'r unig ffynhonnell wybodaeth

*Ffynonellau gwasgarog*

(a)

| *Poblogaeth y crynhoad neu'r parth (miloedd)* | *Os yw'r crynodiadau yn uwch na'r trothwy asesu uchaf* | *Os yw'r crynodiadau uchaf rhwng y trothwy asesu uchaf a'r trothwy asesu isaf* | *Ar gyfer $SO_2$ ac $NO_2$ mewn crynoadau lle mae'r crynodiadau uchaf islaw'r trothwyon asesu isaf* |
|---|---|---|---|
| 0—250 | 1 | 1 | ddim yn gymwys |
| 250—499 | 2 | 1 | 1 |
| 500—749 | 2 | 1 | 1 |
| 750—999 | 3 | 1 | 1 |
| 1 000—1 499 | 4 | 2 | 1 |
| 1 500—1 999 | 5 | 2 | 1 |
| 2 000—2 749 | 6 | 3 | 2 |
| 2 750—3 749 | 7 | 3 | 2 |
| 3 750—4 749 | 8 | 4 | 2 |
| 4 750— 5 999 | 9 | 4 | 2 |
| > 6 000 | 10 | 5 | 3 |
| | Ar gyfer $NO_2$ a mater gronynnol: i gynnwys o leiaf un orsaf â chefndir trefol ac un orsaf sy'n cyfeirio at draffig — bydd y gofyniad hwn yn gymwys i bensen a charbon monocsid ar yr amod nad yw'n | | |

| *Poblogaeth y crynhoad neu'r parth (miloedd)* | *Os yw'r crynodiadau yn uwch na'r trothwy asesu uchaf* | *Os yw'r crynodiadau uchaf rhwng y trothwy asesu uchaf a'r trothwy asesu isaf* | *Ar gyfer $SO_2$ ac $NO_2$ mewn crynoadau lle mae'r crynodiadau uchaf islaw'r trothwyon asesu isaf* |
|---|---|---|---|
| | cynyddu nifer y pwyntiau samplu. | | |

*Ffynonellau pwynt*

(b) I asesu llygredd yng nghyffiniau ffynonellau pwynt, dylid cyfrifo nifer y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog gan gymryd i ystyriaeth ddwyseddau allyriannau, patrymau dosbarthiad tebygol y llygredd yn yr aer amgylchynol a datguddiad posibl y boblogaeth.